# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)22-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 13 Gorffennaf 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Rosemary Butler, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Nododd y Dirprwy Lywydd bod ymddiheuriadau wedi dod i law gan y Llywydd.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)21-10 (cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 6 Gorffennaf 2010**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)22-10(p1)**

3.1 Bydd Dirprwy Lywydd dros dro yn cael ei ethol ar ddechrau cyfarfod dydd Mawrth a dydd Mercher, yn sgil absenoldeb y Llywydd.

3.2 Hysbysodd y Gweinidog dros fusnes y Pwyllgor y byddai'r datganiad a ganlyn yn cael ei wneud ddydd Mercher 14 Gorffennaf 2010:

Datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu  Gydol Oes: Nifer y myfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru (30 munud)

3.3 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio dadl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar ei adroddiad, 'Trefniadau ar gyfer lleoli plant mewn gofal'.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor na fydd y cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth na dydd Mercher yn digwydd cyn 5.00pm.

3.5 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 13 a 14 Gorffennaf 2010.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)22-10(p2)**

3.6 Cyhoeddodd y Gweinidog dros fusnes y bydd y datganiad a ganlyn yn cael ei wneud ar 21 Medi 2010:

Datganiad deddfwriaethol: Eitem gyntaf rhaglen ddeddfwriaethol 2010-11 (60 munud)

3.7 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)22-10(p3)**

3.8 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu dadl Cam 3 Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru), a gyflwynwyd gan Dai Lloyd, ar 6 Hydref 2010.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.10 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

## 4. Deddfwriaeth

**(i) Toriad yr haf: Trefniadau cyflwyno ar gyfer Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth – BC(3)22-10(p4)**

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth yn ystod toriad yr haf.

**(ii) Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog: Nodyn ar y digwyddiad yn y Pierhead – BC(3)22-10(p5)**

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur yn crynhoi'r trafodaethau a gafwyd yn y sesiwn yn y Pierhead fel rhan o'r Adolygiad o Reolau Sefydlog. Bydd y papur yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Pwyllgor Busnes.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**